Da yw bod wrth draed yr Iesu

Caneuon Ffydd: Rhif 771

Da yw bod wrth draed yr Iesu
ym more oes;
ni chawn neb fel ef i'n dysgu
ym more oes;
dan ei groes mae ennill brwydrau
a gorchfygu temtasiynau;
achos Crist yw'r achos gorau
ar hyd ein hoes.

Cawn ei air i buro'r galon
ym more oes,
a chysegru pob gobeithion
ym more oes;
wedi bod ym mlodau'n dyddiau
ni bydd eisiau gado'i lwybrau:
cawn fynediad i'w drigfannau
ar ddiwedd oes.

ELFED, 1860 – 1953

MYFYRDOD

Nid oes dim yn hyfrytach na bod yng nghwmni plant wrth iddyn nhw weddïo o'r galon, neu o'r frest, fel y byddwn yn ei ddweud. Fel hyn y clywais blentyn yn ei ymddiried ei hun i gariad Duw yn ddiweddar: 'Wnei di garu pawb wyt ti'n ei 'nabod, a 'dwi'n siŵr dy fod ti'n gallu caru pawb sy'n y byd i gyd'. 'Codaist amddiffyn rhag dy elynion o enau babanod a phlant sugno', meddai'r Salmydd (8:2). Yr adnod hon a ddefnyddiodd Iesu wrth gyfiawnhau wrth awdurdodau'r deml fod y plant a'r bobl ifanc yn ei foli fel y Meseia gan weiddi: 'Hosanna i Fab Dafydd' (Mth. 21:15–16).

Nid oes dim yn y Beibl yn gwahardd plant rhag bod yn llafar yn eu mawl i Dduw, a phan geisiodd disgyblion Iesu wahardd y mamau rhag dod â'u plant at draed Iesu i gael eu bendithio

oherwydd ei flinder, fe'u ceryddodd nhw a dweud: '"Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn"' (Marc 10:14). I gyfnod arall, bellach, mae'r ymadrodd Saesneg: 'Children should be seen and not heard', yn perthyn, diolch byth. Yr ydym yn colli cymaint wrth beidio â chynnwys, a rhoi lle digonol i blant wrth inni addoli.

Ond i'r cyfnod Fictoraidd hwnnw mae'r emyn hwn gan Elfed yn perthyn. Ymddangosodd yn *Trysorfa'r Plant* (Medi 1896), a dywedir bod adlais o emyn Saesneg ynddo, a oedd yn ymgorfforiad o'r hyn a geid ar gyfer plant y cyfnod, 'O won't you be a Christian while you're young?' Roedd y gwahoddiad yn un taer i blant y cyfnod i ddod at 'draed yr Iesu ym more oes'. Cofiwn nad oedd llawer o blant yn tyfu i weld bywyd fel oedolion ychwaith.

Edrych yn ôl o flinder ei henaint mae'r pregethwr yn Llyfr y Pregethwr pan ddywed, 'Cofia dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuenctid, cyn i'r dyddiau blin ddod' (12:1). Ein hannog yn yr un modd wna Elfed i sefydlu'n perthynas â Duw tra byddwn yn ifanc, cyn i frwydrau a themtasiynau bywyd galedu ein calonnau. O'i osod 'ym mhen ei ffordd' fel plentyn, (Diar. 22:6, BWM), 'ni bydd eisiau gado'i lwybrau', oherwydd bydd wedi profi llwybrau Duw yn rhai diogel ar gyfer holl daith bywyd.

Daliwn ati heddiw i roi pob cyfle i blant ac ieuenctid i ymateb i alwad Duw arnyn nhw a'u cyflwyno'u hunain i'r Arglwydd Iesu yn gynnar yn eu hoes. Os oedd y gwahoddiad yn un taer yng nghyfnod Elfed, dylai fod yr un mor daer yn ein cyfnod ni – dydy plant ddim yn blant yn hir!

GWEDDI

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, diolchwn iti am bob cyfle i rannu ymhlith ein plant y trysorau yr wyt ti yn eu hymddiried i'n gofal. Cyflwynwn bob plentyn yr ydym yn ei adnabod i'th ofal di, gan ofyn iti eu dwyn nhw at draed yr Iesu ym more oes. Er mwyn ei enw. Amen.